

160 528889 2



GALAREB

I BEDWAR DIWEDDAR

Ddiaconiaid Hebo, Glyn Ebwy,

SEP

SION MORGAN,
WILLIAM LEWIS,
IFAN DAFYDD,
DAFYDD WILKINS.

Buddygol yn nghyfarfodydd cystadleuol ysgol
Sabbathol y lle.

GAN

D. JONES, (*GWENTFRYN*).

(Cyhoeddedig dan nawdd yr Ysgol Sul.)

Dan olygiad y Parch. W. Jones, Gweinidog.

LLANGOLLEN:

ARGRAFFWYD GAN W. WILLIAMS,
SWYDDFA'R "GREAL" A'R "ATHRAW."

PRIS DWY GEINIOG.

GALAREB

I BEDWAR DIWEDDAR

Ddiaconiaid Hebo, Glyn Ebwy,

SEF

SION MORGAN,
WILLIAM LEWIS,
IFAN DAFYDD,
DAFYDD WILKINS.

Buddygol yn nghyfarfodydd cystadleuel ysgol
Sabbathol y lle.

GAN

D. JONES, (*GWENTFRYN*).

(Cyhoeddedig dan nawdd yr Ysgol Sul.)

Dan olygiad y Parch. W. Jones, Gweinidog.

LLANGOLLEN:

ARGRAFFWYD GAN W. WILLIAMS,
SWIDDEA'R "GREAL" A'R "ATHEAW."

1878.

GALAREB.

'R HEN Nebo anwylaf, mae'i enw'n barchedig,
Tra'i hanes yn bruddaidd, mae eto'n fawledig;
Yn bruddaidd am syrthio'i golofnau cadarnaf,
Yn glodus am sefyll drwy'r 'stormydd gerwinaf.
Bu'n dyst o roi'i noddwyr ffyddlonaf i orphwys,
Heuliadau lewyrchent ogoniant i'r eglwys;
Fe welodd gawodydd hiraethlawn o ddagrau,
Yn mwydo'i fagwrydd ar ddydd eu hangladdau.
Bu'i furiau yn adsain y lwythog ochenaid,
Rhoi'r byw am y meirw wrth briddo'r anwyliaid;
Maent heddyw yn huno fel pe wrth ei wadnau,
Tra dyrcha ei goryn i wyllo'u haneddau.
Mae'r awen am wylaidd enneinio eu cofiant,
Ac wylo ei deigryn uwch man lle gorweddant.
Ni wnaed galargerddi i bedwar ffyddlonach,
Ni phlethwyd pruddodlau'i nefweision dysgleiriach.
Mae hanes y pedwar yn mynwes brudd Nebo,
Yn newydd ac anwyl, heb arwydd heneiddio.

SION MORGAN.

“'R hen Sion Morgan wedi huno,”
Dyna'r frawddeg brudd a ddoi
Dros wefusau ei gyfeillion,
Yntau wedi bythol ffoi,—

Ffoi i'r gwynfyd annhraethadwy,
 Ffoi i wydd yr anwyl Oen;
 Ffoi i dderbyn nefol wobrwyl,
 Ffoi o afael cur a phoen.

Dyn oedd Sion ga'dd gyflawn olwg
 Ar brydferthion crefydd Crist;
 Seiniau pêr ganiadau Seion,
 Ddo'ent yn hyfryd idd ei glust:
 Ufyddhaodd i'w gorch'mynion,
 Gwisgodd enw'r uchel Dduw;
 Ffrwythau'r nef gaed arno'n gwenu,
 Heb arwyddion deilen wyw.

Er na feddai ar hyawdledd
 Yr areithiwr uchel ddysg,
 Meddai yr elfenau hyny,
 Godai'i enw yn ein mysg:
 Meddai galon lân heddychol,
 Mynwes lawn o gariad cu;
 Medrai gydymdeimlo'n hyfryd,
 Gyda'i frawd dan gwmmwl du.

Llanwai'r swydd o flaenor didwyll
 Eglwys Iôr yn ffyddlawn iawn;
 Gweithiai gydag egni Cristion,
 O dan lwythog oriau'i nawn:
 Y cyfrifon mewn manylrwydd,
 Gadwodd Sion am dymhor maith;
 Eglwys Nebo roi arwyddion
 O'i boddlonrwydd yn ei waith.

Ei gynghor prydlon oedd,
 Fel maethol gawod Mai,

Yn nerthu'r egin gwan,
 Pan fyddent yn llesgau,
 Gan beri nefol dyfiad pur,
 Heb dramgwydd cas na ehwerw gur.

'R oedd pawb yn mynwes Sion,
 A Sion'n eu mynwes hwy;
 Ni fedrai dim ond bedd
 Byth eu gwahanu hwy:
 Brawdgarwch oedd yn nodwedd gref,
 Ac addurn yn ei fuchedd ef.

O dan yr ysgol Sul
 Bu'n golofn gadarn gref;
 Rhyw aur fynegfys oedd,
 Yn dangos ffordd y nef:
 A'i addysg oedd yn frith i gyd,
 O hanes Iesu Prynwr byd.

O faes ei lafur syrthiodd 'r anwyl Sion,
 Am dano'n hir y chwery hyfryd son;
 Fe syrthiodd ef i dawel lwch y glyn,
 A'i ben yn hardd o dan y blewyn gwyn,
 A'i enaid yn sychedu am y nef,
 Er canu'r anthem fythol "Iddo ef."

WILLIAM LEWIS.

Dyma huan arall wedi
 Cilio dan y tywyll leni;
 Eglwys Nebo ddaw â'i deigrin,
 I enneinio bedd ei phlentyn.

"Twyncynhordy," mae ei enw
 Fel diareb yn ein bro ;
 Hanes hwn ddarllenir heddyw
 Ar ddalenau llawer co' :
 Yma bu'r hen William Lewis,
 Yn anadlu diwedd oes ;
 Oddi yma yr esgynodd
 Ar haeddiannau gwaed y groes.

Yn foreu gwelodd aberth Iawrol Crist,
 Yn ddigon mawr i achub enaid trist ;
 Ac ymorphwysodd arno'n hyfryd iawn,
 Gan deimlo hedd mewn rhad faddeuant llawn.
 Efe oedd un o feini sylfaen crefydd
 Yn Mhenycae, a gweithiodd er ei chynnydd,
 Nes daeth yn gref,—estynodd ei chortynau,
 A mawl a chân bêrseiniodd yn ei themlau.
 Yr ysgol Sul ennillodd serch ei fynwes,
 A phan yn llanc gwnai ei choffeidio'n gynhes ;

Ac yfed wnaeth o'i phur ffynnonau gloewon,
 Nes daeth yn gryf i ddeall dwfn ddirgelion,
 Y Dwyfol air—mynegfys mawr y Duwdod,
 Cyfeiria ddyn i'r santaidd breswyl uchod.
 Swydd athraw a gyflawnodd mewn symylrwydd,
 Fel un yn athrawiaethu dros ei Arglwydd ;
 Hyf fedrai rodio meusydd duwinyddiaeth,
 Ei mawr gyfrinion wyddai ef yn helaeth.

Caniadaeth y cyssegr ddenodd ei fryd,
 Fe sugnodd o'i bronau diysbydd ;
 Ar aelwyd y swynol y siglwyd ei gryd,
 A chododd yn hyfryd berorydd.

Er na feddai allu i gerdded yn ol
 Ein Handel a Mozart 'hedegawg,
 Ei gerddi o'ent ddengar fel ceinion y ddôl,
 Neu'r wawrddydd ar leni Dwyreiniawg.

Mae heddyw gerddorion yn aros yn fyw,
 A wiriant ei fawrion dalentau ;
 Sef swynol golofnau sy'n uchel eu bri,
 Godasant o dlodi'r globyllau.

Symylrwydd ei arddull oedd eiddo ei hun,
 Ni feiddiai neb geisio'i ddynwared ;
 Ei ysgol arweiniol reolai mor gun,
 Ac esmwyth a'r dw'r ar i waered.

Gweddiwr mawr ydoedd, a mawr fu ei lwydd,
 Tra'n ceisio wrth orsedd trugaredd ;
 Y nefol fendithion a dynai yn rhwydd,
 Yn gawod o Ddwyfol feithrinedd.

Swydd blaenor-eglwys gyflawnodd mewn bri,
 Yn deilwng o Gristion diamwys ;
 Ei frodyr gofleidiai yn anwyl a chu,
 Tra yntau yn mynwes yr eglwys.

Ei gynghor meithrinol ddisgynai yn fwyn,
 Ac esmwyth fel gw lith ar y blodau ;
 Effeithiau bendithiol o hyd a wnai ddwyn,
 A chynnydd mewn nefol fucheddan.

Ond er ei ddefnyddioldeb,
 Fe'i 'speiliwyd gan y bedd ;
 Fe orfu yntau 'mado,
 Er cystal oedd y wledd :

Yn Nebo dangnefeddus,
 Yn mysg y brodyr cu,
 Yr hyn a feddent heddyw,
 Yw William Lewis fu.

IFAN DAFYDD.

Megys tòn 'rol tòn'n ymrolio,
 Y mae meibion Duw'n myn'd heibio
 I fyd arall—byd ysbrydol,
 Nid oes yma le arosol.

Ifan Dafydd dyner galon,
 Rifir heddyw gyda'r meirwon ;
 Hir bu'i sedd yn wag yn Nebo,
 Sedd yr aelwyd sy'n wag eto.

Cenad bywiog o lys angau,
 Ddaeth i'w alw i'r priddellau ;
 Os daeth angeu mewn awdurdod,
 Ifan Dafydd oedd yn barod.

Tawel ŵr, fucheddai'n addas
 Oedd, a theilwng o gymdeithas ;
 Rhodiai wiwlwys lwybrau'r Cristion,
 Nes cyrhaeddodd fynydd Seion.

Hyddysg oedd yn athrawiaethau
 Crefydd Crist, a'i dirif riniau ;
 Yfai faeth o'i bron ddiysbydd,
 Llawenychai yn ei chynnydd.

Er na feddai ddim deniadol,
 Yn ei ddullwedd yn allanol;
 Er na feddai'r tlws a'r prydfferth,
 Meddai riniau o'ent yn gyfwerth.

Meddai fynwes gynhes lydan,
 Lawn tosturi dros y truan;
 Medrai gydymdeimlo'n hyfryd,
 Gyda'r eiddil yn ei adfyd.

Bu'n gynghorwr mynydd Seion,
 Yn ei ddydd gwnaeth fawr ymdrechion;
 Pwyll gaed ynddo'n nodwedd gymhwys,
 'R hyn sydd addurn blaenor eglwys.

'R ysgol Sul ga'dd ei gefnogaeth,
 Gweithiodd er ei hadeiladaeth;
 Planai egwyddorion hyfryd
 Crefydd yn mynwesau'r ie'ngtyd.

Ni chyfyngai'i hun i Nebo,
 'R aelwyd gartref ga'dd ei deimlo;
 Tystio wnai ei gynhes ddagrau,
 I daerineb ei weddian.

Tra ar faes ei ddefnyddioldeb,
 Tremiodd angeu yn ei wyneb;
 Fe'i harweiniodd ffwrdd yn sydyn,
 Nes collasom sain ei emyn.

Mae adgofion dwys am dano
 'N llanw mynwes eglwys Nebo;
 Mae ei dagrau'n ymgymmysgu
 Gyda dagrau'i briod fwyngu.

DAFYDD WILKINS.

Wel, dyma arall un
 O gedyrn Nebo gun,
 Mewn dystaw fedd :
 Peth hynod, hynod yw,
 Na fyddai'r dail yn wyw,
 O! na, mae'i nerth yn Nuw,
 Ni wywa'i gwedd.

Mae enw Dafydd fwyn,
 Yn Nebo'n hyfryd swyn,
 Ac eto'n brudd :
 Efe oedd harddaf ros
 Ar ruddiau'r eglwys dlos,
 Ei wen wnai'r dduaf nos
 Yn hanner dydd.

Ai angel ydoedd ef,
 Am awr yn gadael nef
 Am gartref dyn ?
 Rhyw nefol fywyd fu
 Mewn cyfeillachau cu' ;
 Y tlws, y cain, a'r cu
 Dd'oent dros ei fin.

Meithrinol fel y gwllith,
 Oedd ei gynghorion ef ;
 Bydd cof am danynt byth
 Ar wyrddion lenyrch nef :
 Fe wnai'r egin dan ei nawdd,
 Fel lili wen yn môn y clawdd.

Un Dafydd Wilkins gaed
 Ar fron yr eglwys fwyn;
 A thrwy ei farw ef,
 Rhoed nôd i chwyddo'i chwyn
 A phan wahoddwyd ef i'r ne'
 Ni chaid yr un a lanwai'i le.

Adgofion melus iawn,
 Yn *fresh* dd'ont ar fy ngho',
 O'i ddull a'i nefol wedd,
 Yn wylo lawer tro,
 Tra'n sugno'n gu y Ddwyfol ddawn,
 O Feibl Duw yn hwyr ei nawn.

Blaenorydd eglwys Iôr,
 Fu Dafydd dymhor maith;
 A'r eglwys roddai sêl
 Boddlonrwydd ar ei waith:
 Arwyddion roddai Duw o'i du,
 Mai addas oedd i drefnu'i dŷ.

Rhy fach yw meidrol ddyn,
 I roi disgrifiad llawn
 O Dafydd Wilkins hoff,
 Er meddu dysg a dawn:
 Addfwynder enaid mawr digoll,
 Oedd fywyd ei rinweddau oll.

Er mwyned, er hoffed oedd ef,
 Ei llyn ddirweiniwyd i fyny;
 Ei enaid addfedodd i'r nef,
 Rhoed ninnau o'i ol i alaru:
 Fe welodd ei goryn yn wyn,
 Fe yfodd awelon hir ddyddiau;

Ond cadwodd ei dânau yn dŷn,
Nes gorphen ei emyn yn angeu.

DIWEDDGLO.

Mae colli pedwar fel y pedwar hyn,
Yn gwneyd i Nebo wisgo golwg syn;
Rhyw bruddaidd wagter deimlir ar eu hol,
Fel mynwes mam heb faban yn ei chol;
Os colled gawd yn marw'r pedwar gwron,
Nes wylo dagrau uwch eu prudd weddillion,
Bu'n ddechreu cân heb un diweddnod iddi,
I'r pedwar hyn am fodd i'w nefol olchi,
A'u gwneyd yn wynion fel y santaidd engyl,
Nes pylu'r Salmon eira yn eu hymyl.

Llangollen: Argraffwyd gan W. Williams.

